# Eiddo Deallusol

**Beth yw Eiddo Deallusol?**

Mae eiddo deallusol yn rhywbeth rydych chi'n ei greu gan ddefnyddio'ch meddwl - er enghraifft, stori, dyfais, gwaith artistig neu symbol.

Mae hawliau eiddo deallusol yn caniatáu ichi bennu gwerth yr eiddo deallusol rydych chi'n berchen arno.

Fel arfer, ni fyddwch yn berchen ar yr eiddo deallusol ar gyfer rhywbeth a grëwyd gennych fel rhan o'ch gwaith tra roeddech chi'n cael eich cyflogi gan rywun arall. Byddai'r sefydliad yn berchen ar yr eiddo deallusol ac yn gallu ei ddefnyddio.

Mae cael y math cywir o ddiogelwch eiddo deallusol yn eich helpu i atal pobl rhag dwyn neu gopïo:

- eich dyfeisiadau
- pethau rydych chi'n eu hysgrifennu, eu gwneud neu'n eu cynhyrchu
- dyluniad neu olwg eich cynhyrchion
- enwau eich cynhyrchion neu frandiau

**Gall Eiddo Deallusol:**

- bod â mwy nag un perchennog
- perthyn i bobl neu fusnesau
- cael eu gwerthu neu eu trosglwyddo

**Torri hawliau eiddo deallusol**

Mae defnyddio nod masnach, patent, hawlfraint neu ddyluniad rhywun heb eu caniatâd yn achos o 'dorri hawliau eiddo deallusol' a gallai arwain at ddirwy, carchar neu'r ddau.

Mae hawlfraint, patentau, dyluniadau a nodau masnach i gyd yn fathau o ddiogelwch eiddo deallusol. Rydych chi'n cael rhai mathau o ddiogelwch yn awtomatig, ond ar gyfer eraill mae'n rhaid i chi wneud ceisiadau ffurfiol.

I ddefnyddio eiddo deallusol rhywun arall, mae angen prynu'r hawliau neu gael caniatâd i'w ddefnyddio ganddynt.

## Beth yw Patent?

Mae patent yn fath o eiddo deallusol sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'w berchennog eithrio eraill rhag gwneud, defnyddio, neu werthu dyfais am gyfnod cyfyngedig o amser yn gyfnewid am gyhoeddi datgeliad galluogi o'r ddyfais.

Mae Swyddfa Eiddo Deallusol y DU yn rhoi patentau sy'n hawl gyfreithiol dros ddyfais newydd. Mae hyn yn caniatáu i berchennog y patent hwnnw atal eraill rhag defnyddio'r ddyfais honno heb ganiatâd trwy gymryd camau cyfreithiol. Mae patentau sydd wedi'u cofrestru yn y DU yn para uchafswm o 20 mlynedd o'r dyddiad y caiff y cais am batent ei wneud.

Bydd patentau a roddwyd yn dod i ben oni bai bod ffi adnewyddu yn cael ei thalu'n flynyddol gan ddechrau o bedwerydd pen-blwydd y dyddiad y cafodd y cais ei wneud. Rhoddir patentau ar gyfer tiriogaethau penodol, gyda phatentau'r DU yn gymwys i'r DU yn unig; er mwyn diogelu dyfais y tu allan i'r DU, byddai angen gwneud ceisiadau patent ychwanegol yn ôl tiriogaeth.

Pan fydd dyfais yn cael ei gwneud, mae'n perthyn i'r dyfeisiwr oni bai bod ei hawliau wedi'u rhoi i rywun arall, er enghraifft, trwy gytundeb neu drwy gontract cyflogaeth.

**Gall rhywbeth fod yn batentadwy os yw'n cwrdd â phedwar maen prawf:**

- Ei fod yn newydd
- Yn cynnwys cam dyfeisgar (nid datblygiad amlwg o'r hyn sydd eisoes yn bodoli)
- Yn gallu cael ei gymhwyso'n ddiwydiannol
- Ddim yn cael ei ystyried yn 'eithriedig' (megis gwaith celf a damcaniaethau gwyddonol)

**Mae'r categorïau canlynol wedi'u heithrio rhag diogelwch patent:**

- Darganfyddiadau gwyddonol neu fathemategol, damcaniaethau neu ddulliau
- Gwaith llenyddol, dramatig, cerddorol neu artistig
- Ffyrdd o gynnal gweithredoedd penodol, fel chwarae gêm neu wneud busnes
- Cyflwyno gwybodaeth
- Dyfeisiadau sy'n groes i bolisi cyhoeddus neu foesoldeb
- Amrywiaethau o blanhigion ac anifeiliaid
- Dulliau ar gyfer triniaeth feddygol neu ddiagnosis

**Hawlfraint**

Mae hawlfraint yn diogelu eich gwaith ac yn atal eraill rhag ei ddefnyddio heb eich caniatâd.

Rydych yn cael diogelwch hawlfraint yn awtomatig - nid oes unrhyw ofyniad i wneud cais na thalu ffi. Yn y DU nid oes cofrestr o waith sydd â hawlfraint. Mae diogelu hawlfraint yn dechrau cyn gynted ag y bydd gwaith yn cael ei greu a phan ddaw i ben, gall unrhyw un ddefnyddio neu gopïo'ch gwaith.

Rydych chi'n cael diogelwch hawlfraint yn awtomatig pan fyddwch chi'n creu:

- gwaith llenyddol, dramatig, cerddorol ac artistig gwreiddiol, gan gynnwys darlunio a ffotograffiaeth
- gwaith ysgrifenedig gwreiddiol nad yw'n llenyddol, megis meddalwedd, cynnwys y we a chronfeydd data
- recordiadau sain a cherddoriaeth
- recordiadau ffilm a theledu
- darllediadau
- cynllun argraffiadau cyhoeddedig o waith ysgrifenedig, dramatig a cherddorol

Gallwch farcio'ch gwaith gyda'r symbol hawlfraint (©), eich enw a'r flwyddyn y cafodd ei greu. Nid yw p'un a ydych yn marcio'r gwaith ai peidio yn effeithio ar lefel y diogelwch sydd gennych.

Gallwch drwyddedu'r defnydd o'ch gwaith os ydych chi'n berchen ar yr hawlfraint. Gallwch hefyd benderfynu sut mae eich gwaith yn cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn berthnasol p'un a yw'r perchennog yn unigolyn neu'n sefydliad.

Mae hawlfraint yn diogelu eich gwaith trwy atal pobl rhag:

- copïo eich gwaith
- dosbarthu copïau ohono, boed yn rhad ac am ddim neu ar werth
- rhentu neu fenthyca copïau o'ch gwaith
- perfformio, dangos neu chwarae eich gwaith yn gyhoeddus
- gwneud addasiad o'ch gwaith
- ei roi ar y rhyngrwyd

Pa mor hir mae hawlfraint y DU fel arfer yn para:

- Gwaith ysgrifenedig, dramatig, cerddorol ac artistig - 70 mlynedd ar ôl marwolaeth yr awdur
- Recordiadau sain a cherddoriaeth - 70 mlynedd ers ei gyhoeddi gyntaf
- Ffilmiau - 70 mlynedd ar ôl marwolaeth y cyfarwyddwr, awdur y sgript a'r cyfansoddwr
- Darllediadau - 50 mlynedd o'r adeg y caiff ei ddarlledu gyntaf
- Cynllun argraffiadau cyhoeddedig o waith ysgrifenedig, dramatig neu gerddorol - 25 mlynedd ers ei gyhoeddi gyntaf

## Trwyddedu

Mae trwydded yn gytundeb dan gontract rhwng perchennog yr hawlfraint a'r defnyddiwr, sy'n nodi'r hyn y gall y defnyddiwr ei wneud gyda darn o waith. Gall unrhyw drwydded y cytunir arni ymwneud ag un neu fwy o'r hawliau a roddir gan hawlfraint a gall hefyd gael ei chyfyngu o ran amser neu unrhyw ffordd arall.

## Masnacheiddio

Mae gan ddatblygiadau newydd y potensial i gynhyrchu incwm. Mae yna ystod o opsiynau, o werthu'r datblygiad yn gyfan gwbl, i ganiatáu defnydd dielw, a dim ond codi tâl ar y rhai sy'n edrych i elwa'n ariannol ar ei ddefnydd.

Wrth fasnacheiddio rhywbeth rydych chi neu'ch cydweithwyr wedi'i ddatblygu, gwnewch yn siŵr nad yw'n cynnwys rhywbeth sydd ond ar gael ar sail defnydd dielw, gan y byddai hyn yn torri'r amodau defnydd.

## Defnyddio Cynhyrchion Trwyddedig

Mae yna opsiwn i ganiatáu mynediad cyfyngedig yn ddi-dâl. Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddefnyddio Trwydded Creative Commons. Mae rhai cynhyrchion ar gael at ddefnydd dielw yn ddi-dâl, gan ganiatáu defnydd di-gost yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Os ydych chi'n defnyddio cynnyrch trwyddedig, mae'n bwysig cydymffurfio â'r gofynion trwyddedu, oherwydd gall torri rheolau arwain at gamau cyfreithiol.

## Parth Cyhoeddus

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes unrhyw gyfyngiadau eiddo deallusol, neu mae rhai prin iawn. Gallai hyn fod pan fo hawlfraint wedi dod i ben neu os gwnaed penderfyniad i ganiatáu defnydd parod, megis gyda meddalwedd ffynhonnell agored.

## Eiddo Deallusol a Chi

Mae bod yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl o ran eiddo deallusol ar gyfer arloesedd yn fan cychwyn da. Gan y gall hwn fod yn faes gweithgaredd cymhleth, os oes amheuaeth, gofynnwch am gyngor gan gydweithiwr profiadol neu arbenigwr mewn eiddo deallusol.